Home Office

# STRATEGAETH CYFFURIAU 2010

## PAPUR YMGYNGHORI

# CYNNWYS


**STRATEGAETH CYFFURIAU 2010** **1**

**CWESTIYNAU** **2**

Gweledigaeth ar gyfer y Strategaeth Cyffuriau newydd 2

Atal defnydd o gyffuriau -
Dan Arweiniad yr Adran Addysg 4

Cryfhau gorfodaeth, cyfiawnder troseddol a'r fframwaith cyfreithiol -
Dan Arweiniad y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y Cyd 7

Ailgloriannu triniaeth i gefnogi deilliannau rhydd o gyffuriau -
Dan Arweiniad yr Adran Iechyd 10

Cefnogi adferiad i dorri'r gadwyn o ddibyniaeth ar gyffuriau -
Dan Arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau 13

**DOLENNI I YMGYNGHORIADAU ERAILL PERTHNASOL** **17**

**ATODIAD A – Cyfrinachedd Ymatebion ac Ymwrthodiad** **18**

# STRATEGAETH CYFFURIAU 2010

Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi Strategaeth Cyffuriau newydd yn Rhagfyr 2010.

Mae Gweinidogion wedi cytuno ar weledigaeth strategol newydd a themâu cyffredinol ar gyfer y Strategaeth Cyffuriau a fydd yn gosod y fframwaith ar gyfer cyflenwi polisi cyffuriau yn y dyfodol.

Nod y ddogfen ymgynghori dargedig hon yw darparu cyfle cynnar i ymgysylltu ar gyfer ystod eang o bartneriaid, o elusennau i bartneriaid gorfodi, gweithwyr cyffuriau a sefydliadau o'r sector gwirfoddol a chymunedol. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion gan y cyhoedd.

Mae'r papur yn gosod amcanion a themâu allweddol gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer polisi cyffuriau, ac yn ceisio rhoi grym i lais y 'Gymdeithas Fawr' i allu dylanwadu ar ddatblygiad y Strategaeth Cyffuriau newydd trwy ofyn i chi beth ddylai'n hymagwedd fod ym mhob un o'r meysydd thematig hyn.

Mae'r ymgynghoriad targedig yn cwmpasu ystod eang o themâu a dylai ymatebwyr deimlo'n rhydd i ateb cymaint, neu cyn lleied, o gwestiynau ac y dymunant.

Ffocws a chwmpas cyffredinol y strategaeth fydd pob cyffur anghyfreithiol. Fodd bynnag, ar gyfer y gweithgareddau hynny ble mae ymagwedd ar y cyd yn briodol ar gyfer cyffuriau ac alcohol, fe gydnabyddir hyn – yn arbennig ym meysydd ataliaeth, triniaeth ac adferiad. Bydd y strategaeth yn dilyn ymagwedd gyffredinol i atal a lleihau camddefnydd o gyffuriau o unrhyw fath.

O ran grymoedd a ddatganolwyd, mae cwmpas y Strategaeth Cyffuriau newydd fel a ganlyn:

- Iechyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol – cyfyngir i Loegr.
- Plismona a'r System Cyfiawnder Troseddol – Cymru a Lloegr[1].
- Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau – Cymru, Lloegr a'r Alban.

1 Sylwer: Gweinyddiaethau datganoledig – bydd cyfieithiad Cymraeg yn dilyn yn fuan.

# CWESTIYNAU

## GWELEDIGAETH AR GYFER Y STRATEGAETH CYFFURIAU NEWYDD

Bydd y Swyddfa Gartref yn arwain y Strategaeth Cyffuriau newydd i atal cymryd cyffuriau, amharu ar gyflenwad cyffuriau, cryfhau gorfodaeth a hyrwyddo triniaeth cyffuriau gyda'r pwyslais ar alluogi pobl i fod yn rhydd o'u dibyniaethau, yn cynnwys alcohol, er mwyn sicrhau adferiad llwyr a chyfrannu i gymdeithas. Ei nod yw:

- Mwy o uchelgais o ran adferiad unigol wrth sicrhau effaith triniaeth ar leihau troseddu.
- Gweithredoedd i daclo cyffuriau'n rhan o adeiladu'r "Gymdeithas Fawr".
- Ymagwedd fwy holistaidd gan asesu a thaclo materion cyffuriau ynghyd â materion eraill megis cam-drin alcohol, diogelu plant, iechyd meddwl, cyflogaeth a thai.
- Datganoli cyllidebau a chyfrifoldeb ble bynnag y bo'n bosibl, gan gomisiynu gwasanaethau ar lefel leol.
- Symleiddio cyllidebau a ffrydiau ariannu a'u seilio ar ddeilliannau.
- Lleihau costau ariannol camddefnyddio cyffuriau.

CWESTIWN A1: A OES AGWEDDAU ALLWEDDOL ERAILL O LEIHAU CAMDDEFNYDDIO CYFFURIAU Y TEIMLWCH DDYLID DELIO Â NHW?

☐ Oes

☐ Nac Oes

Amlinellwch unrhyw awgrymiadau isod

| |
|---|
| |

CWESTIWN A2: PA FEYSYDD HOFFECH CHI EU GWELD YN CAEL BLAENORIAETH? DEWISWCH CYMAINT AG SY'N BERTHNASOL

☐ Mwy o uchelgais o ran adferiad unigol wrth sicrhau effaith triniaeth ar leihau troseddu.

☐ Dylai gweithredoedd i daclo cyffuriau fod yn rhan o adeiladu'r "Gymdeithas Fawr".

☐ Ymagwedd fwy holistaidd, gan asesu a thaclo materion cyffuriau ynghyd â materion eraill megis cam-drin alcohol, diogelu plant, iechyd meddwl, cyflogaeth a thai.

☐ Datganoli cyllidebau a chyfrifoldeb ble bynnag fo'n bosibl, gan gomisiynu gwasanaethau ar lefel leol.

☐ Symleiddio cyllidebau a ffrydiau ariannu a'u seilio ar ddeilliannau.

☐ Lleihau costau ariannol camddefnyddiocyffuriau.

☐ Dim un ohonynt

CWESTIWN A3: BETH YDYCH CHI'N YSTYRIED SYDD WEDI GWEITHIO'N DDA MEWN YMAGWEDDAU BLAENOROL I DACLO CAMDDEFNYDDIOCYFFURIAU?

CWESTIWN A4: BETH YDYCH CHI'N YSTYRIED SYDD HEB WEITHIO CYSTAL MEWN YMAGWEDDAU BLAENOROL I DACLO CAMDDEFNYDDIOCYFFURIAU?

## ATAL DEFNYDD O GYFFURIAU – DAN ARWEINIAD YR ADRAN ADDYSG

Gall gweithredu'n gynnar, yn arbennig gyda phobl ifanc, helpu i atal problemau cyffuriau ac alcohol rhag datblygu.  Fodd bynnag, mae yna nifer o wahanol ffactorau allai arwain at bobl yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol ac ystod o wahanol ymagweddau i ataliaeth.

Mae'r rhesymau pam fod pobl yn cychwyn camddefnyddio cyffuriau yn gymhleth, ac wedi eu dylanwadu gan ffactorau personol, cymunedol a chymdeithasol. Ac er ein bod yn gwybod mai yn ystod yr arddegau fydd camddefnyddiocyffuriau yn dechrau fel arfer, mae angen i strategaethau atal ystyried yr ystod lawn o ffactorau hyn.

Mae'r llywodraeth eisoes wedi cyflwyno rhywfaint o gynigion ar gyfer taclo cyflenwi cyffuriau neu alcohol i bobl ifanc, yn cynnwys system o waharddiadau dros dro ar gyffuriau 'high' cyfreithiol a mesurau trwyddedu i gynyddu'r cosbau i'r rhai sy'n gwerthu alcohol i bobl ifanc dan oed.

CWESTIWN B1: BETH YW'R DULLIAU MWYAF EFFEITHIOL O ATAL CAMDDEFNYDDIOCYFFURIAU NEU ALCOHOL?

CWESTIWN B2: PWY (PA ASIANTAETHAU, SEFYDLIADAU AC UNIGOLION) SYDD Â'R GALLU GORAU I ATAL CAMDDEFNYDDIO CYFFURIAU NEU ALCOHOL?

CWESTIWN B3: PA GRWPIAU (O RAN OED, LLEOLIAD NEU FREGUSRWYDD) DDYLAI RHAGLENNI ATAL GANOLBWYNTIO'N BENODOL ARNYNT?

## CWESTIWN B4: PA GYFFURIAU (YN CYNNWYS ALCOHOL) DDYLAI RHAGLENNI ATAL GANOLBWYNTIO ARNYNT?

- ☐ Y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf
- ☐ Y rhai a ddefnyddir fwyaf
- ☐ Pob cyffur

Esboniwch eich barn isod

## CWESTIWN B5: BETH YW'R MODD GORAU O GEFNOGI RHIENI I ATAL POBL IFANC RHAG CAMDDEFNYDDIO CYFFURIAU NEU ALCOHOL?

## CWESTIWN B6: SUT ALL CYMUNEDAU CHWARAE RÔL FWY EFFEITHIOL O RAN ATAL CAMDDEFNYDDIOCYFFURIAU NEU ALCOHOL?

## CWESTIWN B7: A OES UNRHYW ENGHREIFFTIAU PENODOL O WEITHGAREDD ATAL YR HOFFECH EU GWELD YN CAEL EU DEFNYDDIO'N FWY HELAETH?

## CWESTIWN B8: BETH YW'R RHWYSTRAU I WELLA ATALIAETH CYFFURIAU AC ALCOHOL?

## CRYFHAU GORFODAETH, CYFIAWNDER TROSEDDOL A'R FFRAMWAITH CYFREITHIOL – DAN ARWEINIAD Y SWYDDFA GARTREF A'R WEINYDDIAETH CYFIAWNDER AR Y CYD

Fel rhan o'r asesiad llawn o bolisi dedfrydu, byddwn yn sicrhau fod dedfrydu ar gyfer defnydd o gyffuriau yn helpu troseddwyr i dorri'n rhydd o gyffuriau.

CWESTIWN C1: PRYD MAE DEFNYDD O GYFFURIAU YN DOD YN BROBLEM?

CWESTIWN C2: A YDYCH CHI'N CREDU Y DYLAI'R SYSTEM GYFIAWNDER TROSEDDOL WNEUD UNRHYW BETH YN WAHANOL WRTH DDELIO Â THROSEDDWYR SY'N CAMDDEFNYDDIO CYFFURIAU?

Er mwyn sicrhau fod gan y Deyrnas Unedig fframwaith statudol effeithiol sy'n gallu ymateb i fygythiadau, byddwn yn cyflwyno system o waharddiadau dros dro ar sylweddau seicoweithredol newydd, neu'r hyn a elwir yn "highs" cyfreithiol. Bydd hyn yn ein galluogi i weithredu'n gynnar o ran deddfwriaeth i ffrwyno argaeledd deunyddiau newydd allai fod yn niweidiol wrth aros am gyngor llawn gan y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau. Bydd troseddau yn berthnasol i'r "troseddau masnachu/cyflenwi" ac nid meddiant yn unig. (Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â chynnig y llywodraeth ar gael o www.homeoffice.gov.uk)

CWESTIWN C3: A OES GENNYCH FARN AR BA FFACTORAU DDYLAI'R LLYWODRAETH EU HYSTYRIED WRTH BENDERFYNU SEFYDLU GWAHARDDIAD DROS DRO AR SYLWEDD NEWYDD?

☐ Oes

☐ Nac Oes

☐ Ddim yn gwybod

Esboniwch eich barn isod

Byddwn yn archwilio dulliau amgen o lety diogel, seiliedig ar driniaeth ar gyfer troseddwyr sydd â salwch meddwl ac yn camddefnyddio cyffuriau.

CWESTIWN C4: PA FATHAU O LETY YN Y GYMUNED YDYCH CHI'N CREDU Y DYLID EI YSTYRIED I ADSEFYDLU TROSEDDWYR CYFFURIAU?

Byddwn yn cryfhau gorfodaeth trwy dargedu pob pwynt yn y gadwyn gyflenwi cyffuriau o amharu ar werthwyr ar y stryd i daclo grwpiau troseddu cyfundrefnol.

CWESTIWN C5: BLE YDYCH CHI'N FEDDWL Y MAE'R ANGEN MWYAF O RAN TARGEDU YMDRECHION GORFODAETH I LEIHAU'R CYFLENWAD O GYFFURIAU?

Byddwn hefyd yn sicrhau fod gorfodi'r gyfraith yn ymateb yn fuan a hyblyg i'r tirlun cyffuriau newidiol, yn cynnwys ymddangosiad cyffuriau newydd, a'r bygythiad seiber.

CWESTIWN C6: BETH ARALL YDYCH CHI'N FEDDWL ALLWN NI EI WNEUD I GADW UN CAM AR Y BLAEN I'R FARCHNAD GYFFURIAU NEWIDIOL?

Byddwn yn lleihau aildroseddu sy'n ymwneud â chyffuriau trwy ysgogi partneriaid lleol cyfiawnder troseddol, gwirfoddol ac eraill i weithio mewn modd cydlynol a thargedig i gyflenwi gwasanaethau cost effeithiol, yn cynnwys modelau megis Rheolaeth Troseddwyr Integredig (IOM).

CWESTIWN C7: PA BARTNERIAID – YN Y SECTORAU CYHOEDDUS, GWIRFODDOL A CHYMUNEDOL – HOFFECH CHI EU GWELD YN CYDWEITHIO I LEIHAU AILDROSEDDU'N GYSYLLTIEDIG Â CHYFFURIAU YN EICH ARDAL LEOL?

CWESTIWN C8: PA GANLYNIADAU Y DYLID TALU AMDANYNT NEU EU HARIANNU?

Byddwn yn lleihau'r cyflenwad o gyffuriau mewn carchardai gydag ystod gynhwysfawr o fesurau'n seiliedig ar asesiad risg lleol, gan weithio'n agos gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith, a datblygu'n gallu i gasglu cudd-wybodaeth.

CWESTIWN C9: PA FESURAU YDYCH CHI'N CREDU Y DYLID EU CYMRYD I LEIHAU'R CYFLENWAD O GYFFURIAU MEWN CARCHARDAI?

CWESTIWN C10 (OS YN BERTHNASOL):
PA EFFAITH FYDDAI GAN Y MESURAU A AWGRYMWYD AR:

a) droseddwyr?

b) eich cymuned leol?

## AILGLORIANNU TRINIAETH I GEFNOGI DEILLIANNAU RHYDD O GYFFURIAU – DAN ARWEINIAD YR ADRAN IECHYD

Rydym yn cydnabod bod dibyniaeth ar gyffuriau yn anhwylder cymhleth sydd â chostau difrifol o ran iechyd ac sy'n achosi niwed difrifol i'r gymuned. Er bod lleihau niwed yn elfen bwysig o driniaeth, hyrwyddo a chefnogi adferiad a ffordd o fyw rhydd o gyffuriau yw'r nod yn y pen draw.

Rydym nawr yn trin nifer sylweddol o gamddefnyddwyr cyffuriau, gyda dros 210,000 yn derbyn triniaeth.  Rydym eisiau adeiladu ar hyn trwy ddarparu gwell cefnogaeth i adferiad a ffordd o fyw rhydd o gyffuriau, a galluogi unigolion i ailintegreiddio fel aelodau cynhyrchiol o gymdeithas.

Rydym hefyd angen gwneud hyn yng nghyd-destun y newidiadau ehangach i'r gwasanaeth iechyd fydd yn gweld sefydlu GIG symlach a mwy atebol a chreu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus.

CWESTIWN D1: WRTH YSTYRIED Y SYSTEM DRINIAETH BRESENNOL, BETH SY'N GWEITHIO'N DDA A BETH DDYLID EI GADW?

CWESTIWN D2: WRTH YSTYRIED Y SYSTEM DRINIAETH BRESENNOL, BETH SYDD ANGEN EI WELLA A SUT Y GALLAI FOD ANGEN IDDI NEWID I HYRWYDDO ADFERIAD?

(e.e. sut mae comisiynwyr yn cael y gorau o adsefydlu cymunedol a phreswyl)

CWESTIWN D3: A OES SEFYLLFAOEDD BLE GELLID DOD Â GWASANAETHAU CYFFURIAU AC ALCOHOL YNGHYD YN FWY DEFNYDDIOL NEU A OES SEFYLLFAOEDD BLE MAE'N FWY DEFNYDDIOL IDDYNT GAEL EU GWEITHREDU AR WAHÂN?

CWESTIWN D4: A DDYLID CAEL MWY O FFOCWS AR DRIN POBL SY'N DEFNYDDIO SYLWEDDAU HEBLAW HEROIN NEU GRAC COCÊN, MEGIS COCÊN POWDR A 'HIGHS' CYFREITHIOL ERAILL?

- [ ] Dylid
- [ ] Na Ddylid

Esboniwch eich ymateb isod:

CWESTIWN D5: A DDYLAI DIBYNIAETH AR SYLWEDDAU CYFREITHIOL, MEGIS MEDDYGINIAETH AR BRESGRIPSIWN A DROS Y COWNTER, FOD YN FLAENORIAETH UWCH?

- [ ] Dylai
- [ ] Na Ddylai
- [ ] Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ymateb isod

CWESTIWN D6: PA RÔL DDYLAI FOD GAN Y GWASANAETH IECHYD CYHOEDDUS MEWN ATAL POBL RHAG DEFNYDDIO CYFFURIAU YN Y LLE CYNTAF, A SUT ALL HYN GYD-FYND Â GWAITH ATALIOL ARALL?

Byddwn yn adeiladu gweithlu galluog i gyflawni gwell canlyniadau a gwella triniaeth (meddygol a seicolegol), yn cynnig gwasanaethau mwy uchelgeisiol ac unigol, gan adeiladu ar y dystiolaeth o beth sy'n gweithio ac yn gost effeithiol.

CWESTIWN D7: RYDYM EISIAU SICRHAU Y GALLWN BARHAU I ADEILADU SGILIAU'R SECTOR TRIN CYFFURIAU AC ADSEFYDLU I SICRHAU Y GALLANT FODLONI ANGHENION Y RHAI SY'N CEISIO TRINIAETH. BETH ARALL ALLWN NI EI WNEUD I GEFNOGI HYN?

Byddwn yn gwella "profiad y claf" o driniaeth ac adferiad, gan sicrhau gwell dilyniant gofal wrth symud rhwng lleoliadau triniaeth (e.e. carchar a chymuned, gyda gwasanaethau priodol i bobl ifanc, a hyrwyddo ymagwedd fwy holistaidd sy'n cynnwys cymorth effeithiol i ailintegreiddio).

CWESTIWN D8: DIM OND UN AGWEDD SY'N CYFRANNU TUAG AT YMATALIAD AC ADFERIAD YW TRINIAETH. PA GAMAU ERAILL Y GELLIR EU CYMRYD I GYNNWYS GWASANAETHAU TRINIAETH MEWN CYMORTH EHANGACH MEGIS TAI, CYFLOGAETH A CHEFNOGI TROSEDDWYR?

Rydym angen sicrhau fod comisiynwyr ledled gwahanol raglenni Llywodraeth yn cydweithio'n effeithiol ac y gallant gael mynediad at gyllid heb gyfyngiadau gormodol ar ddefnydd.

CWESTIWN D9: SUT YDYCH CHI'N CREDU Y DYLID GWNEUD COMISIYNWYR YN ATEBOL AM SICRHAU Y CYFLENWIR DEILLIANNAU TRINIAETHAU CYMUNEDOL, AM HYRWYDDO AILINTEGREIDDIO AC ADFERIAD, YN OGYSTAL Â LLEIHAU'R NIWED I IECHYD?

## CEFNOGI ADFERIAD I DORRI'R GADWYN O DDIBYNIAETH AR GYFFURIAU - DAN ARWEINIAD YR ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU

Mae Llywodraeth y Glymblaid yn credu mewn ymagwedd i daclo dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol sydd wedi ei wreiddio yn y cysyniad o adferiad ac ailintegreiddio, proses ble mae'r unigolyn yn cael ei alluogi i drechu symptomau ac achosion eu dibyniaeth, ac yn dod yn aelod gweithredol a chyfrannol o gymdeithas.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall adferiad olygu gwahanol bethau i wahanol bobl yn ystod pwyntiau gwahanol o'u taith, ac mae fwyaf effeithiol pan osodir anghenion a gobeithion unigolyn yn ganolog i'w ofal.

Dylai'r canlyniad terfynol hefyd fod yn ffocws, yn hytrach na dull, a dyma pam y byddwn yn ceisio mewnosod ysgogiadau priodol seiliedig ar ddeilliant i'r system cyflenwi a chomisiynu.

Nid yw adferiad yn dechrau na gorffen gyda thriniaeth, ac mae'r un mor berthnasol i gyflogaeth, tai, addysg a sgiliau, cymorth i deuluoedd, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau iechyd ehangach sydd angen amlapio triniaeth mewn modd holistaidd i gefnogi adferiad cynaliadwy.

CWESTIWN E1: PA YMYRAETHAU  Y GELLIR EU DARPARU I ROI GWELL CEFNOGAETH I ADFER AC AILINTEGREIDDIO TROSEDDWYR SY'N DDIBYNNOL AR ALCOHOL A CHYFFURIAU WRTH DDYCHWELYD I GYMUNEDAU O'R CARCHAR?

CWESTIWN E2: PA YMYRAETHAU  Y GELLID EU DARPARU I DDELIO AG UNRHYW FATERION MAE POBL SY'N DDIBYNNOL AR GYFFURIAU NEU ALCOHOL YN EU HWYNEBU'N RHEOLAIDD PARTHED TAI?

CWESTIWN E3: SUT Y GALLAI GWASANAETHAU CYFFURIAU, ALCOHOL AC IECHYD MEDDWL FOD YN FWY EFFEITHIOL WRTH GYDWEITHIO I FODLONI ANGHENION DEFNYDDWYR GWASANAETH DIBYNNOL AR GYFFURIAU NEU ALCOHOL GYDA CHYFLYRAU IECHYD MEDDWL?

CWESTIWN E4: A OES CYFLEOEDD PRIODOL I GAFFAEL SGILIAU A HYFFORDDIANT I'R GRŴP HWN?

Parthed cyflogaeth, byddwn yn diwygio'r system les fel bod y rhai gyda phroblemau cyffuriau ac alcohol yn derbyn y cymorth a chefnogaeth maent ei angen i drechu eu dibyniaeth a dychwelyd i'r gwaith.

CWESTIWN E5: A DDYLEM FOD YN GWNEUD MWY O'R POTENSIAL I DDEFNYDDIO'R SYSTEM BUDD-DALIADAU I GYNNIG DEWIS I HAWLWYR RHWNG:

a) rhyw fath o ataliad budd-dal ariannol os nad ydynt yn gweithredu i ddelio â'u dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol; neu

b) gefnogaeth atodol i gymryd camau o'r fath, trwy deilwra'r gofynion a osodir arnynt fel amod o dderbyn budd-dal i gynorthwyo yn eu hadferiad (er enghraifft, diddymu'r angen i chwilio am waith dros dro wrth dderbyn triniaeth).

CWESTIWN E6: BETH OS UNRHYW BETH ALLAI'R GANOLFAN BYD GWAITH EI WNEUD YN WAHANOL WRTH YMGYSYLLTU Â'R GRŴP HWN O GWSMERIAID I GEFNOGI ADFERIAD YN WELL?

(Er enghraifft, mwy o ddefnydd o ymgynghorwyr arbenigol ac estyn allan, defnyddio gwahanol sianelau cyfathrebu ar gyfer cyngor ar fudd-daliadau a gweinyddu)

CWESTIWN E7: YN EICH PROFIAD CHI, PA YMYRAETHAU SYDD FWYAF EFFEITHIOL O RAN HELPU'R GRŴP HWN I GANFOD SWYDD?

CWESTIWN E8: PA RWYSTRAU PENODOL MAE'R GRŴP HWN YN EU HWYNEBU WRTH WEITHIO NEU CHWILIO AM WAITH, A BETH Y GELLID EI WNEUD I DDELIO Â'R RHAIN?

(Er enghraifft, sut y gellid annog cyflogwyr i edrych tu hwnt i'r stigma a chyflogi unigolion dibynnol sy'n gwella).

Bydd ymagweddau newydd i gefnogi teuluoedd gyda phroblemau lluosog yn cael eu datblygu. Bydd cost effeithiolrwydd gwasanaethau plant yn cael ei wella a'r nifer o blant sydd angen eu diogelu neu eu rhoi mewn cartref gofal yn cael ei leihau, gan ddelio ag amddiffyn a diogelu plant ar draws y strategaeth.

CWESTIWN E9: YN SEILIEDIG AR EICH PROFIAD, PA MOR EFFEITHIOL YW YMYRAETHAU TEULU CYFAN FEL MODD O DACLO NIWED CAMDDEFNYDD O SYLWEDDAU

CWESTIWN E10: A OES DIGON YN CAEL EI WNEUD I HARNEISIO CYFALAF ADFERIAD TEULUOEDD, PARTNERIAID A FFRINDIAU POBL SY'N GAETH I GYFFURIAU NEU ALCOHOL?

## CWESTIWN E11: A YW GWASANAETHAU ALCOHOL A CHYFFURIAU YN TALU SYLW DIGONOL I ANGHENION Y CWSMERIAID HYNNY SYDD Â PHLANT?

(e.e. a roddir digon o flaenoriaeth iddynt; a oes mynediad digonol at ofal plant; a yw cynllun ac oriau agor gwasanaethau yn ddigonol; ac a ellid gwneud mwy, gan ystyried materion diogelu plant, i sicrhau fod defnyddwyr gwasanaeth yn cynnal cyswllt gyda'u plant  wrth dderbyn triniaeth).

## CWESTIWN E12: PA BROBLEMAU MAE ASIANTAETHAU SY'N GWEITHIO GYDA RHIENI SY'N DDIBYNNOL AR ALCOHOL NEU GYFFURIAU YN EU HWYNEBU WRTH GEISIO DIOGELU PLANT RHAG NIWED, A BETH Y GELLID EI WNEUD I DDELIO Â MATERION O'R FATH?

# DOLENNI I YMGYNGHORIADAU ERAILL PERTHNASOL

### YMGYNGHORIADAU SY'N AGORED AR HYN O BRYD:

Adran Gwaith a Phensiynau – diwygio lles yn yr 21ain ganrif yn

http://www.dwp.gov.uk/consultations/2010/21st-century-welfare/

Swyddfa Gartref – Plismona yn yr 21ain ganrif: ailgysylltu'r heddlu a'r bobl yn

http://www.homeoffice.gov.uk/police/policing-21st-century/

Swyddfa Gartref – Ailgloriannu'r Ddeddf Trwyddedu yn

http://www.homeoffice.gov.uk/publications/consultations/cons-2010-licensing-act/

Tryloywder deilliannau – fframwaith i'r GIG yn

http://www.dh.gov.uk/en/Consultations/Liveconsultations/DH_117583

### YMGYNGHORIADAU SYDD AR Y GWEILL:

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Papur Gwyrdd Chwyldro Adsefydlu

# ATODIAD A
# CYFRINACHEDD YMATEBWYR AC YMWADIAD

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig.

Gall unrhyw wybodaeth a ddarparir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i'w gyhoeddi neu ddatgelu yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [FOIA], y Ddeddf Diogelu Data 1998 [DPA] a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i wybodaeth arall a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna God Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill.

O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran.

Bydd yr adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

### CYDLYNYDD YR YMGYNGHORIAD

Os oes gennych gŵyn neu sylw i'w roi ynglŷn ag ymagwedd y Swyddfa Gartref i ymgynghori, dylech gysylltu â chydlynydd ymgynghori'r Swyddfa Gartref, Nigel Lawrence. PEIDIWCH ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Nigel Lawrence. Mae'r Cydlynydd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a osodwyd gan God Ymarfer y Llywodraeth, yn cynghori timau polisi ar sut i gyflawni ymgynghoriadau ac yn ymchwilio cwynion a wnaed yn erbyn y Swyddfa Gartref. Nid yw'n prosesu'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gellir anfon e-bost at y cydlynydd yn:
Nigel.Lawrence@homeoffice.gsi.gov.uk

Neu ysgrifennwch ato yn:

Nigel Lawrence, Consultation Co-ordinator
Home Office
Performance and Delivery Unit, Better Regulation Team
3rd Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain, SW1P 4DF

ISBN: 978-1-84987-254-6
HO_01698_G